# ATODLEN 1

## Diwygiadau o ganlyniad i gychwyn Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

### Rheoliadau Gofal Plant (Cyflenwi a Datgelu Gwybodaeth) (Lloegr) 2007

**16.**—(1) Mae Rheoliadau Gofal Plant (Cyflenwi a Datgelu Gwybodaeth) (Lloegr) 2007(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 9(2) (gofyniad i ddarparu gwybodaeth i bersonau rhagnodedig amrywiol)—

(a) ar ôl is-baragraff (a) mewnosoder—

"(aa) a provider of a fostering service within the meaning of paragraph 5 of Schedule 1 to the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016;";

(b) yn is-baragraff (b), yn lle "that Act" rhodder "the Care Standards Act 2000";

(c) ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—

"(ba) a provider of an adoption service within the meaning of paragraph 4(a) of Schedule 1 to the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016;".

(**1**) O.S. 2007/722,y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.